Tîm Ymgysylltu Mesurau Gwella
Coridor yr M4

M4 (Magwyr i Gas-bach) – Mesurau Gwella'r Coridor

Adroddiad Trawsgrifiad Gweithdy'r Rhanddeiliaid Strategol

11-

Drafft 1 | Ebrill 2011

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Catrin Ellis ASSOCIATES

ARUP

Cynnwys

			Tudalen
1	**Cyflwyniad**		**1**
	1.1	Problemau Trafnidiaeth	1
	1.2	Sylwadau eraill ar y taflenni gwaith	6
	1.3	Problemau newydd	7
	1.4	Trafodaeth lawn am y Problemau	8
2	**Cyrchnodau Trafnidiaeth**		**9**
	2.1	Sylwadau ar gyrchnodau trafnidiaeth cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru	9
	2.2	Sylwadau eraill ar y taflenni gwaith	12
	2.3	Cyrchnodau newydd	14
	2.4	Trafodaeth lawn am y Cyrchnodau	15
3	**Nodau Cyffredinol**		**16**
	3.1	Sylwadau ar nodau cyffredinol cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru	16
	3.2	Sylwadau eraill ar y taflenni gwaith	17
	3.3	Trafodaeth lawn am nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru	18
	3.4	Nodau cyffredinol newydd hyd at 2020	18
	3.5	Nodau cyffredinol newydd o 2020 ymlaen	19
4	**Gwerthusiadau**		**20**

1 Cyflwyniad

Ar ddechrau 2011 cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weithdy i Randdeiliaid Strategol yn ardal coridor trafnidiaeth Magwyr i Gas-bach, fel rhan o Raglen Ymgysylltu Mesurau Gwella Coridor yr M4. Roedd y gweithdy'n un o nifer o ddigwyddiadau, a gellir cael mwy o wybodaeth amdanynt yn http://wales.gov.uk/topics/transport/roads/schemes/ewsouth/m4mctcip/?lang=cy.

Mae'r ddogfen hon yn drawsgrifiad o'r taflenni gwaith a'r siartiau troi a gynhyrchwyd yn y gweithdy, ac nid yw'r testun wedi'i newid o gwbl, ac eithrio golygu syml lle'r oedd rhywbeth yn aneglur. Gellir hefyd gweld adroddiad cryno o'r gweithdy ar y wefan uchod.

1.1 Problemau Trafnidiaeth

1.1.1 Sylwadau ar restr problemau gyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr adolygu dadansoddiad cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r prif broblemau trafnidiaeth ar y coridor trafnidiaeth hwn, dynodi a oeddent yn cytuno â'r broblem, ac ychwanegu sylwadau neu ddiwygiadau. Rhoddir trawsgrifiad isod o'r taflenni gwaith a ddefnyddiwyd ganddynt.

Mae'r testun sydd wedi'i amlygu'n felyn yn cyfeirio at destun annealladwy a dderbyniwyd ar y taflenni gwaith a lenwyd.

	Problem 1. Anawsterau yn cynnal llifoedd traffig digonol ar yr M4 ar adegau pan fo tarfu dros dro (er enghraifft, yn dilyn damweiniau, problemau'n cael eu hachosi gan dywydd difrifol, neu yn ystod prif ddigwyddiadau)
✓	Cytuno - problem fawr
	Yn gysylltiedig â rhif 9 ac 14 ** Angen pwysleisio difrifoldeb y seilwaith – pan fydd yn mynd o'i le, nid oes unrhyw ddewis amgen
	2 brif fater Digwyddiadau mawr – llif traffig trwm mewn cyfnod amser byr Damweiniau – yr annisgwyl → mae diffyg gwybodaeth yn broblem. Hefyd gall arwyddion gwybodaeth ar y draffordd fod yn gamarweiniol, ac nid yw pobl yn ymddiried ynddynt bob amser
	Nid defnyddwyr yr M4 yn unig Angen ystyried pobl eraill yr effeithir arnynt gan y broblem hon
	Dylid osgoi ychwanegu at gyfnodau tagfeydd sy'n hysbys gyda digwyddiad chwaraeon, ac ati
	Mae twneli Brynglas yn effeithio ar y llif 3-2-3 (Cyffordd 24 a Brynglas) Diffyg llwybrau dargyfeirio digonol Diffyg dewisiadau amgen i'r car
×	

	Problem 2 . Mae mwy o draffig yn defnyddio'r M4 o amgylch Casnewydd nag y dyluniwyd y ffordd i ymdopi ag ef, ac mae hynny'n arwain at dagfeydd rheolaidd ar adegau prysur
✓	Datganiad – beth yw'r broblem? Tagfeydd rheolaidd? Mae tagfeydd yn ardal gyfan Casnewydd ar gyfnodau prysur
	Bydd yr M4 fodd bynnag yn gallu ymdopi â rhyw lefel o draffig.
	Mae Cyffordd 28 yn broblem benodol – mae traffig trwm yn dod i mewn o nifer o gyfeiriadau Nid adeiladwyd yr M4 yng Nghasnewydd fel traffordd, ac ni chafodd ei dylunio i ymdopi â thraffig cynyddol yn sgil datblygiadau busnes newydd
	Ffaith sy'n cael ei derbyn
	Cysylltiedig â phwynt 11 → mae'n cyfyngu ar lif nwyddau/sgiliau/buddsoddi ac ati, y twneli yw'r risg fwyaf → byddai'r cau yn cael effaith economaidd sylweddol
×	Gall ffactorau economaidd lleihau'r defnydd o geir Gwelliannau i gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus

	Problem 3. Rhagwelir y bydd lefelau traffig yn parhau i gynyddu, felly bydd problemau 1 a 2 yn gwaethygu dros gyfnod
✓	Rhaid peidio â derbyn y bydd y lefelau traffig yn cynyddu, ac felly cyfyngu atebion posibl
	Angen cael rhagolygon mwy dibynadwy
×	Mae data'n bodoli sy'n dangos bod llifoedd yn lleihau. A yw'r rhagolygon yn dal yn gywir?
?	Angen esboniad, beth yw'r dystiolaeth i awgrymu twf pellach. Pwysau sy'n gwrthdaro prisiau tanwydd ↓ dirwasgiad ↓ cael gwared ar dollau'r bont (?) ↑ mwy o ddatblygu ↑ gweithio hyblyg ↓ (mae'n lleihau tagfeydd yn ystod yr awr brysur)

	Problem 4. Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth presennol yn gweithredu fel cyfyngiad i dwf economaidd (er enghraifft, wrth i gwmnïau cludo nwyddau weld mwy a mwy o oedi o ran dosbarthu, gallant benderfynu peidio â buddsoddi yn Ne Cymru)
✓	Nid y rhwydwaith yn unig, ond gan dollau, canfyddiad o dagfeydd
	Ond eto efallai bod ffocws rhy gul ar y rhannau eraill o'r rhwydwaith trafnidiaeth (cyhoeddus, môr, awyr)
	Cywiriad: nid y cwmnïau cludo nwyddau sy'n buddsoddi, ond yn hytrach eu cwsmeriaid Nid yw ffyrdd da yn gwarantu buddsoddiad, ond maent yn rhagofyniad
	Dylai gyfeirio at bob cwmni
	Cysylltu â phwynt 1 → yn enwedig diffyg dewisiadau amgen digonol i ddefnyddiwr y ffordd
×	Anghytuno – ddim o'r farn fod yr M4 yn cyfyngu ar dwf economaidd, agweddau mwy, cysylltedd yr economi â marchnadoedd, costau llafur a fydd yn gyfyngiadau mwy i dwf economaidd
	Nid yw realiti'n cyfateb i'r mater canfyddedig

	Problem 5. Mae angen gwaith cynnal a chadw hanfodol helaeth ar yr M4 o fewn y 5-10 mlynedd nesaf; bydd hyn yn golygu cyfyngiadau am gyfnodau hir ar lonydd a chyflymder, a bydd hyn yn cynyddu problemau tagfeydd
✓	Ail-eirio hwn i dynnu sylw at y broblem ei hun
	Angen ystyried dewisiadau amgen. Meddwl yn fwy ac yn ehangach. Diffyg lled llawn a llain galed barhaus.
	Byddwn yn ychwanegu y dylai prif raglenni seilwaith eraill gael eu cynllunio ar y cyd Cydweithredu rhwng aml-asiantaethau
×	Mae angen gwaith cynnal a chadw ar bob ffordd

	Problem 6. Mae cerbydau nwyddau trwm yn ymdopi'n wael gyda thagfeydd am eu bod yn cymryd mwy o amser i ailgychwyn ar ôl iddynt stopio, ac mae hynny'n ychwanegu at y tagfeydd.
✓	Bydd daearyddiaeth unrhyw rwydwaith traffyrdd yng Nghymru yn peri bod cerbydau nwyddau trwm yn cymryd mwy o amser na'r arfer i groesi
	Ail-eirio hwn i dynnu sylw at y broblem ei hun, nid y symptom
	Lorïau'n defnyddio sawl lôn ac yn amharu ar lif y traffig Roedd yr hen 1 lôn 1 wedi diflannu
×	Nid yw cerbydau nwyddau trwm yn ymddwyn yn wahanol i gerbydau eraill. Datganiadau ysgubol – mae'n dibynnu ar y llwyth hefyd
	Anghytuno – nid yw'n broblem fawr
	Mae pob cerbyd yn ymdopi'n wael â thagfeydd
	Ffaith: effaith gyfyngedig ar dagfeydd oni bai bod graddiant sylweddol ar i fyny Mae cerbydau nwyddau trwm sy'n goddiweddyd yn dangos ymddygiad gyrru gwael

	Problem 7. Mae'r traffig sy'n symud yn araf mewn tagfeydd ar y draffordd o amgylch Casnewydd yn ychwanegu at broblemau llygredd aer
✓	Mae unrhyw dagfeydd yn ychwanegu at lygredd aer *
	Ymddengys mai'r un mater yw hwn (ag 8 gweler isod) – nid yw'n ymddangos fod y rhain yn wir, ond nid ydym yn gwybod maint y broblem
	Dylai hefyd gynnwys ffyrdd ochr/ffyrdd bwydo
	Ffaith
	Y stopio-ailgychwyn a maint y traffig yw'r peth (nid arafwch)
×	

	Problem 8. Mae symudiad y traffig yn stopio-ailgychwyn ar yr M4 yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr na thraffig sy'n llifo'n ddirwystr
✓	Problem – anodd cadw llif dirwystr – dyma'r broblem wirioneddol hefyd mewn llawer o ddatganiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru
	* Fel uchod – gweler rhif 7
	fel rhif 7 – gellir cyfuno dwy broblem
	Ymddengys mai'r un mater yw hwn (â 4 gweler uchod) – nid yw'n ymddangos fod y rhain yn wir, ond nid ydym yn gwybod maint y broblem
	Ocê

	Ffaith
×	

Problem 9. Mae'r system drafnidiaeth ffordd a rheilffordd o fewn coridor yr M4 ac o'i amgylch dan berygl cynyddol o darfu oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol (er enghraifft, llifogydd)	
✓	Cytuno - gydag amheuon - dim con???ing
	Cytuno, er yn chwilfrydig ynghylch pam mae cyfeiriad at ffordd a rheilffordd yma, ond nid mewn lleoliadau eraill
	Enghraifft wael
	Wrth i nifer y defnyddwyr (ffordd/rheilffordd) gynyddu, ynghyd â digwyddiadau tywydd eithafol, mae'r cyfuniad yn fwy
×	Ddim yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth yn ymwneud â'r rhan hon o'r M4
	Ddim yn dueddol o ddioddef llifogydd
	Gan y byddai dŵr llifogydd yn gwagio i afon Wysg

Problem 10. Mae sŵn traffig o'r draffordd yn broblem i drigolion lleol	
✓	Gallai ei wneud yn waeth
	Ffaith - caiff ei newid gan draffig yn stopio-ailgychwyn neu draffig parhaus
×	Nid yw'n fater mawr, ac nid yw'n cael ei wneud yn waeth o gwbl
	Darpariaeth dda o ran rhwystrau sŵn ar hyd yr M4
	Cysylltiedig â 3
?	Ddim yn byw'n lleol i'r draffordd, ond credaf fod hynny'n wir - yn fwy gwir mewn rhai ardaloedd, mae'n siwr

Problem 11. Nid yw nod Llywodraeth Cynulliad Cymru i greu porth gwell i mewn i Gymru yn cael ei fodloni ar hyn o bryd gan goridor yr M4	
✓	De Cymru'n unig!
	Cytuno – Mae hwn yn gwestiwn allweddol
	Ail-eirio
	Ffaith – angen ystyried pob opsiwn ar gyfer trafnidiaeth. Nid coridor yr M4 yn unig yw Cymru. A yw'r M4 ond yn mynd i Gaerdydd – ond a yw hyn yn fater?
×	Nid oes darpariaeth gyson 3 lôn A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig i 3 lôn ar hyd y draffordd gyfan
	Mae Cymru'n dechrau yn Sir Fynwy (o'r dwyrain) ac mae pyrth i mewn i Gymru, yn dod o Loegr, mewn lleoliadau i ffwrdd o'r M4 Mae'n awgrymu bod Cymru'n dechrau ar ôl coridor yr M4 Byddwn yn awgrymu newid i'r geiriad 'nod i greu porth gwell i Gaerdydd'
?	Beth yw nod Llywodraeth Cynulliad Cymru? Beth a olygir gan 'gwell'? Porth i beth? Cludo nwyddau, twristiaid, symudiadau pobl Iwerddon (Iwerddon ←→ Cymru/Lloegr), digwyddiadau arbennig e.e. rygbi Nid y ffordd yn unig yw'r porth, ond y lleoliad hefyd

Problem 12. Mae'r system drafnidiaeth bresennol yn cyfyngu ar yr hyn y gall Cynghorau ei wneud i ddatblygu'u hardaloedd	
✓	Mae angen gwella'r ffyrdd cyswllt i'r M4
	Mae tagfeydd Forge Lane at Gyffordd 28 yn cyfyngu datblygiad
	Mae cyfyngiadau'r M4, fodd bynnag, yn cynnig cyfle i rai cynghorau lleol fanteisio (e.e. Sir Fynwy) fel cynghorau'r porth
	Dylai hefyd gyfeirio at fusnesau ac ati
	Ffaith – ystyriwch drafnidiaeth gynaliadwy. Angen ehangu er mwyn esbonio beth mae 12 yn ei olygu o ran "cyfyngiad"/"rhwystr" ar gynghorau lleol
×	
?	Ai'r broblem yw 'ni ddaw busnes am fod rhwystrau ar yr M4 byth a hefyd'? Ai'r broblem yw'r ddaearyddiaeth sy'n diffinio ble mae'r system drafnidiaeth?
	Esboniad ynglŷn â'r hyn a olygir gan gwmpas y "system trafnidiaeth" Cyfyngiadau'r system reilffordd/trafnidiaeth gyhoeddus

Problem 13. Mae'r cyfraddau damweiniau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer traffyrdd y DU	
✓	Ond mae'r cyfyngiad cyflymder 50mya wedi lleihau'r broblem ddamweiniau'n sylweddol
	Gostwng yn sydyn o ganlyniad i'r cyfyngiad cyflymder cyfartalog 50mya. A yw'r gyfradd gwrthdrawiadau yn dal yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol?
×	Roedd hynny'n wir, ond nid oes ystadegau cyfredol ar gael – gwelliannau ers 50mya
	Tystiolaeth bod gostyngiad o 80% yn nifer gwrthdrawiadau traffig ffordd ers y cyfyngiad 50mya/camerâu cyflymder AV Tystiolaeth o gynllun yr M25 y bydd PIA yn gostwng o lefel uchel
?	Nid yw'r datganiad yn dweud bod problem o angenrheidrwydd Beth yw'r broblem sydd i'w datrys? Llai o farwolaethau? Llif traffig mwy di-dor? Llai o ddamweiniau?

Problem 14. Mae'r problemau presennol ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yn cael effaith ganlyniadol sylweddol ar adegau, ac mae'n tarfu'n ddifrifol ar deithio yn Ne Cymru	
✓	Yn ystod adegau pan fo'r ffordd ar gau yn llwyr, mae problemau'n effeithio ar bob llwybr o'r Dwyrain i'r Gorllewin, gan gynnwys SDR, A472, A465, felly mae angen eu cynwys yn yr ateb
	* Yn gysylltiedig â chwestiynau 1, 9 ac 14
	Cytuno – mae angen i'r cynllun dalu sylw cyfartal i hyn ac nid ymwneud yn unig â thraffig sy'n mynd i mewn i Dde Cymru ar hyd yr M4
	Byddai'r broblem yn digwydd yn unrhyw le ar hyd yr M4 – nid yn gyfyngedig i'r rhan rhwng Magwyr i Gas-bach o angenrheidrwydd
	Cysylltiedig ag 1, 2 a 3 Ni all yr un o'r dewisiadau amgen ymdopi â dargyfeiriadau gwael
×	

1.2 Sylwadau eraill ar y taflenni gwaith

Roedd nodiadau taflenni gwaith eraill a gofnodwyd gan gyfranogwyr yn datgan:

- Mae llawer o'r problemau hyn sydd wedi'u rhestru yn ddatganiadau, felly ni fydd unrhyw beth a wneir ar yr M4 yn newid hynny - fel a ddangosir ym mhroblem 6. Fy marn bersonol i yw bod y problemau'n rhy benodol i greu ateb-M4.
- Gall llygredd dŵr/dŵr ffo redeg yn uniongyrchol i afon Wysg; y mater gyda thagfeydd i ddileu'r cyfyngiant.
- Gwrthdaro rhwng traffig lleol / traffig hirdeithiog. Ar gyfer beth mae'r ffordd yn cael ei defnyddio. Ystyriwch ei defnydd, a rhannwch y defnyddiau traffig.
- Ystyriwch ymddygiad teithio – cynllunio teithio personol ac ati. Y dewisiadau cynaliadwy (dewisiadau meddal). Integreiddio – mae angen meddwl cydgysylltiedig.

1.3 Problemau newydd

Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried a oedd unrhyw broblemau trafnidiaeth pwysig yn y coridor, a'u hysgrifennu ar stribedi o bapur siartiau troi. Gosodwyd y stribedi ar flaen yr ystafell, ac mewn rhai achosion gofynnodd yr hwylusydd am esboniad. Mae'r nodiadau esbonio yn y golofn ar y dde. Rhoddwyd y problemau mewn categorïau bras gyda chymorth y cyfranogwyr, ac fe'u dangoswyd gyda'i gilydd. Dyna pam y mae'r rhifau isod yn ymddangos allan o drefn.

Problem	**Nodiadau'r siartiau troi ac esboniadau ar stribedi o'r drafodaeth lawn**
29. Nid yw arwyddion gwybodaeth yn cael eu diweddaru bob amser yn dilyn digwyddiad. Nid yw pobl yn tueddu ymddiried ynddynt, ac felly maent yn eu hanwybyddu.	*Mae defnydd amhriodol ac aneffeithiol o systemau cyfleu negeseuon yn achosi problemau ei hun e.e. oedi o ran dileu gwybodaeth sydd wedi dyddio.*
28. Nid yw'r ffordd gerbydau yn cynnwys 3 lôn yn gyson ar hyd y rhan hon.	*Felly mae'n anodd i gerbydau nwyddau trwm newid lonydd, ac os oes digwyddiad mae'n rhaid cau'r ffordd am gyfnod hwy.* *Mae diffyg llain galed yn ei gwneud hi'n anoddach delio â digwyddiadau, ac mae hefyd yn golygu bod gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio yn achosi mwy o broblemau.*
27. Mae llygredd dŵr, sy'n cael ei achosi gan (gyfres o) ddigwyddiadau untro, yn effeithio ar Afon Wysg, SoDdGA, ACA, am fod dŵr ffo yn rhedeg oddi ar y ffordd. Mae'n rhaid i'r Frigâd Dân / Asiantaeth yr Amgylchedd dynnu'r llygryddion wedyn, gan achosi mwy o dagfeydd.	*Gall datrys hyn gymryd cryn dipyn o amser dros gyfnod amser eang, yn enwedig os yw'n digwydd y tu allan i oriau swyddfa, gan na fydd pobl ar gael o bosibl i ddelio ag ef ar unwaith, ac mae hyn yn achosi mwy o oedi.* *Fodd bynnag, nid yw'r broblem hon yn benodol i'r rhan hon o'r M4.*
32. Cerbydau nwyddau trwm – mae dosbarthu nwyddau [yn gwneud] teithiau diangen	*Mae angen dosbarthu a chynhyrchu lleol er mwyn lleihau nifer y cerbydau nwyddau trwm.*
17. Bydd Heol Llanwern yn gwneud y dagfa ar ben yr SDR yn waeth o lawer (Cyffordd 28 / cylchfan Pont Ebwy)	
16. Mae newidiadau i ddilyniant y goleuadau traffig wrth gylchfan Cyffordd 28 wedi achosi tagfeydd mawr iawn i'r traffig sy'n gadael Casnewydd. Mae hefyd yn broblem diogelwch fawr, a dim ond mater o amser yw hi cyn y bydd damwain ddifrifol yn digwydd.	*Gwnaethpwyd hyn i wella pethau, ond mae wedi achosi effeithiau negyddol canlyniadol mawr.*
15. Cymysgedd o draffig lleol a thraffig trwodd ar yr M4.	
31. A yw tollau'r M4 yn rhwystr i'r economi yn hytrach na thagfeydd ac ansawdd yr M4?	*Ac a all y newidiadau arfaethedig waethygu hyn ?*
30. Dibynadwyedd amser siwrneiau yn wael.	
26. Angen integreiddio meysydd polisi eraill y Cynulliad wrth benderfynu ar atebion.	*Meddwl seilo. Ymddengys nad oes unrhyw gysylltiad rhwng polisi trafnidiaeth integredig Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ystyried y coridor fel mater ffordd. Mae datgysylltiad rhwng polisi trafnidiaeth integredig a phrosiectau mawr.*
25. Dim ystyriaeth i ddewisiadau cynaliadwy – rheilffordd, tramiau, cynlluniau teithio personol, 'dewisiadau meddal'	*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried hyrwyddo cynlluniau teithio personol a sefydliadol. Mae angen arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.*

24. Diffyg darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer datblygiadau newydd (busnes, tai preifat) neu y tu allan i'r dref.	*e.e. sefydlu parc busnes newydd heb fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.*
23. Trafnidiaeth integredig (aml-foddol, Parcio a Theithio, P&S, mathau o ddefnyddwyr, yn cludo nwyddau, cyhoeddus, preifat) a gwybodaeth	
22. Systemau trafnidiaeth ddim yn cael eu hintegreiddio, gyda beicio yn un enghraifft.	
21. Mae'r astudiaeth hon yn cyfeirio at yr M4 (fel ffordd). Dylai archwilio coridor De Cymru gyfan - i adlewyrchu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae angen integreiddio cynlluniau rheilffyrdd a ffyrdd. Y broblem yw bod y cynllun yn anwybyddu cyd-destun Pont Hafren - Cyffordd 34.	
20. Rhoi mwy o ystyriaeth i dramiau a threnau.	
19. Y diwylliant ceir. Dewisiadau teithio. Goblygiadau cyfnod brig defnyddio olew ar brisiau / galw / defnydd.	*Mae'n rhaid i ni symud i ffwrdd oddi wrth y diwylliant ceir.*
33. Risg cau Twnnel Crindau!! Mae diffyg dewis amgen yn risg fawr i economi Cymru.	
18. Gormod o gyffyrdd ar yr M4	*O amgylch Casnewydd*
34. Mae'r ddaearyddiaeth leol yn cyfyngu ar yr opsiynau am lwybrau newydd ar gyfer y ffordd a'r rheilffordd.	
35. Os yw'r M4 yn cael ei chau, mae cost economaidd i fusnesau.	
36. Mae llawer iawn o geir ar y ffordd a phobl sydd eisiau symud o gwmpas.	

1.4 Trafodaeth lawn am y Problemau

Gwnaed un sylw pellach yn y drafodaeth gyffredinol:

- Amserau siwrneiau yn arafach e.e. nid yw ar adegau brig yr un fath ag amserau siwrneiau annibynadwy.

2 Cyrchnodau Trafnidiaeth

2.1 Sylwadau ar gyrchnodau trafnidiaeth cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr adolygu dadansoddiad cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r prif gyrchnodau trafnidiaeth ar y coridor trafnidiaeth hwn, dynodi a oeddent yn cytuno â'r broblem, ac ychwanegu sylwadau neu ddiwygiadau. Rhoddir trawsgrifiad isod o'r taflenni gwaith a ddefnyddiwyd ganddynt.

	Cyrchnod 1. Ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio o'r Dwyrain i'r Gorllewin yn Ne Cymru
✓	Dylid cynnwys 'mwy diogel' hefyd; dylai 'cyflymach' fod yn 'dibynadwy'
	I'r rheiny y mae angen iddynt wneud, ar hyd coridor yr M4 A oes angen i ni gyfeirio at yn gyflymach, ac yn lle hynny i
	A'r ardal reiddiol am ei bod yn effeithio ar ffyrdd eraill o'r gorllewin-dwyrain a'r cymoedd Angen gwell mynediad ar drafnidiaeth leol i ganolfannau economaidd
	Os yw'n llawn, nid oes modd cael siwrnai gyflymach *
	Haws, cyflymach a mwy cynaliadwy A yw'r rhain yn mynd i fod yn gyrchnodau SMART (rhai allweddol)!
	Cyfuno gydag 8 + 12 + 2***
×	
?	Barnau cymysg – dibynadwyedd yn fwy na chyflymder

	Cyrchnod 2. Gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth i Loegr, Gweriniaeth Iwerddon a gweddill Ewrop ac ati
✓	Cytuno – mae buddsoddi'n bwysig iawn
	A beth am y Gogledd-De? Mae cysylltiadau â Chymru yn bwysig
	20 munud yn gyflymach ar y trên pan fydd wedi'i drydanu Ystyriwch bob dull teithio
	*** gweler 1 uchod
×	
?	Nid yw'n gyrchnod uniongyrchol (bydd yn digwydd o'r uchod)*

	Cyrchnod 3. Hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o ddewisiadau amgen i'r M4, gan gynnwys rhannau eraill o'r rhwydwaith trafnidiaeth a dulliau trafnidiaeth eraill ar gyfer siwrneiau lleol o amgylch Casnewydd
✓	Cytuno – yn gryf!!
	Dyma'r flaenoriaeth uchaf, ni ddylid rhwystro teithio Dylai ddarllen 'gwneud defnydd mwy effeithiol'
	Hanfodol
	Ydy, ond ehangwch yr ardal i gynnwys y coridor cyfan

×	
?	

Cyrchnod 4. Gwneud y defnydd gorau posibl o'r M4 bresennol a'r rhwydwaith ffyrdd lleol	
✓	Cytuno
	Cyhyd â bod hynny ddim yn anwybyddu dewisiadau amgen ddim yn codi tâl am ddefnyddio ddim yn effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd/cymunedau ddim yn gorlenwi ffyrdd
	Ffaith
×	Sut ydyn ni'n gwybod nad yw'r defnydd 'gorau' posibl eisoes yn cael ei wneud Angen cael llwybrau amgen – mae'r rhwydweithiau ffyrdd lleol sy'n arwain at yr M4 yn wael, ac nid ydynt yn gallu ymdopi â maint y traffig
?	Beth mae hyn yn ei olygu? O gofio'r dewisiadau amgen o'r dwyrain-gorllewin oherwydd topograffeg y dyffryn, mae coridor yr M4 yn hanfodol i symudiadau lleol yn ogystal â symudiadau strategol
	Beth mae hyn yn ei olygu? A yw'r rhain yn gydnaws? Os yw'r M4 yn llifo'n dda, gall fod tagfeydd trwm ar y rhwydwaith lleol? Angen integreiddio gyda'r rheilffordd.

Cyrchnod 5. Gwneud amserau siwrneiau ar hyd coridor yr M4 yn fwy dibynadwy	
✓	Cytuno
	Angen rheoli disgwyliadau
	Byddwn yn amau, serch hynny, a yw amserau siwrneiau presennol yn annibynadwy, yn nhermau rhagfynegi
	Nid yn ddibynadwy yn unig ond amserau siwrneiau cyson llai o stopio/ailgychwyn cyflymder i roi'r defnydd mwyaf effeithlon o danwydd
	Mae'n ddeilliant
	Ystyried bod amserau'n ddibynadwy, ond gellir ystyried bod hynny'n rhy hir. Mae amser yn ddisgwyliedig o araf ar rai amserau rheolaidd, ond mae un o'r digwyddiadau'n achosi tagfeydd na ragwelwyd
	Angen bod dyheadau lefel uwch
×	

Cyrchnod 6. Cynyddu lefel y dewis i bawb sy'n teithio ar hyd y coridor trafnidiaeth rhwng Magwyr a Chas-bach	
✓	Cytuno
	Mae'r un fath â rhif 3
	A bod dewisiadau trafnidiaeth eraill yn cael eu hariannu a'u marchnata Buddsoddi mewn seilwaith teithio cynaliadwy, ni all hyn fod yn feicio!!! (beic) Dylid ystyried hyn ochr yn ochr â theithio cynaliadwy mewn trefi, ac edrych ar Gasnewydd hefyd
	Drwy bob dull
×	Cynyddu cymhellion fel bod dewisiadau presennol eraill yn fwy deniadol

Cyrchnod 7. Ei gwneud hi'n haws i bobl allu defnyddio gwasanaethau allweddol, yn ogystal â chanolfannau preswyl a chanolfannau masnachol	
✓	Cytuno
	Ddim yn siwr beth yw'r amcan
	Parcio
	Ie, drwy wella trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad ffyrdd lleol
×	
?	Ond mae angen i ni edrych ar bolisïau eraill, e.e. iechyd, addysg, ac edrych ar eu heffaith ar y galw am drafnidiaeth
	Angen i hyn gysylltu â chynllun gofodol Cymru a chynlluniau datblygu lleol. Angen un farn a meddwl cydgysylltiedig
	Mae'n gwrthdaro â dyheadau cenedlaethol i ganoli prif ganolfannau (e.e. ysbytai) Mae polisïau cynllunio a defnydd tir yn gwrthdaro

Cyrchnod 8. Gwella diogelwch ar yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach.	
✓	Cytuno
	Sut? Beth yn benodol? Llai o ddamweiniau? Llai o farwolaethau? Llai o dagfeydd?
	*** gweler Rhif 1
×	

Cyrchnod 9. Gwella ansawdd yr aer mewn ardaloedd nesaf at yr M4 o amgylch Casnewydd	
✓	Cytuno
	Ond os ydych chi'n cael mwy o geir yn mynd o un lle i'r llall, mae'n dal i fodoli – ond yn cael ei wasgaru
	Mae angen targed, integreiddio ag iechyd amgylcheddol (cael targedau?) a hefyd y CDLl, am fod busnes ac ati hefyd yn effeithio ar ansawdd yr aer
	**** + 11
×	

Cyrchnod 10. Lleihau'r aflonyddwch i bobl yn sgil lefelau sŵn uchel o draffig yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach	
✓	Cytuno – blaenoriaeth isel
	Er, mae buddion i fyw gerllaw traffyrdd, a dylid cydbwyso hynny yn erbyn unrhyw aflonyddwch a achosir gan synau.
	Camlythreniad, ond yn cytuno â 10
×	
?	Sut? Ar gyfer y rhan hon o'r M4 yn unig? Does bosib ei bod yn rhan fach o system ehangach o lawer**
	Mater lleol

Cyrchnod 11. Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fesul cilomedrau cerbyd a/neu bobl

✓	Cytuno
	Angen iddo ddweud hefyd lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn gyffredinol
	**** gweler Rhif 9 uchod
×	
?	Sut yn benodol? Dylunio injans gwell? Cyflymderau is a defnydd mwy effeithlon o danwydd? ** fel uchod (gweler cyrchnod 10)

Cyrchnod 12. Gwella'r profiad teithio i mewn i Dde Cymru ar hyd Coridor yr M4	
✓	Cynyddu bioamrywiaeth weledol gerllaw'r coridor. Defnyddio llifoedd (blodau??) gwyllt [wild flows (flowers??)] i wella'r profiad teithio
	*** gweler Rhif 1
×	Ddim a dweud y gwir
?	Angen ei ddiffinio
	Yn amlwg, ie, crynodeb o'r cwestiwn blaenorol
	Cyhyd â bod hyn ddim yn cynyddu'r lefel teithio diangen, a pheidio â theithio er mwyn teithio
	Diystyr. Ym mha ffordd? Yn benodol? A yw'r uchod i gyd yn cwmpasu hyn? Effaith economaidd? Amser? Golygfa? Dibynadwyedd?

2.2 Sylwadau eraill ar y taflenni gwaith

Roedd nodiadau taflenni gwaith eraill a gofnodwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys:

- Meddwl cydgysylltiedig e.e. iechyd, llygredd aer, cynllunio arbennig a'r system drafnidiaeth. Ymddengys bod y cyrchnodau'n hwyluso mwy o deithio yn hytrach nag ystyried p'un a allai buddsoddi leihau'r angen i deithio, yn enwedig yn y car. Buddsoddwch i hwyluso mwy o gymudo ar y trên yn hytrach na'r car. Sicrhewch y gall plant fynd i'r ysgol heb orfod teithio yn y car.
- Mynd i'r afael â gwrthdaro rhwng teithio lleol/pellter hir. Hwyluso traffig yn llifo'n ddi-dor – hyd yn oed os oes angen lleihau traffig (llinellau onglog i gadw gofod). Lleihau'r angen i deithio! Dim hwyluso siwrnai well yn unig.
- Byddem yn awgrymu lleihau nifer y cyrchnodau:
    - Amserau siwrneiau - 1, 2, 5 & 7
    - Ymagwedd trafnidiaeth integredig ar gyfer teithio ar hyd y coridor – 3, 4 & 6
    - Amgylcheddol – 9, 10 & 11
    - Diogelwch – 8
    - Mae'n debyg bod 12 yn ddiangen?

- Nid yw'r un o'r cyrchnodau yn rhai SMART – sut byddwn ni'n gwybod pan fyddan nhw wedi'u cyflawni, sut bydd yr allgynnyrch yn cael ei fesur?
- Nid ydym yn anghytuno ag unrhyw un o'r cyrchnodau (ni wnaeth y grŵp hwn unrhyw sylwadau ac ni roddwyd unrhyw diciau ar y templed – dim ond y sylwadau hyn)

2.3 Cyrchnodau newydd

Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried a oedd unrhyw gyrchnodau trafnidiaeth pwysig yn y coridor, a'u hysgrifennu ar stribedi o bapur siartiau troi. Gosodwyd y stribedi ar flaen yr ystafell, ac mewn rhai achosion gofynnodd yr hwylusydd am esboniad. Mae'r nodiadau esbonio yn y golofn ar y dde. Rhoddwyd y cyrchnodau mewn categorïau bras gyda chymorth y cyfranogwyr, ac fe'u dangoswyd gyda'i gilydd. Dyna pam y mae'r rhifau isod yn ymddangos allan o drefn.

CYRCHNOD	***Nodiadau'r siartiau troi ac esboniadau ar stribedi o'r drafodaeth lawn***
18. Cyfathrebu gwell rhwng / o fewn sefydliadau teithio.	*Mae hyn yn cyfeirio at Lywodraeth Cynulliad Cymru (sy'n gyfrifol am y drafforddd), ALlau (sy'n gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd), y rheilfforddd a darparwyr seilwaith a thrafnidiaeth eraill*
17. Creu system drafnidiaeth integredig.	
23. Creu cysylltiad newydd â'r M48 i wasanaethu ardal Rogiet / Cil-y-coed, a mwy o gyfleuster parcio a theirio wrth Gyffordd Twnnel Hafren.	
22. Gwella ansawdd y gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus / gostwng prisiau a chynyddu safleoedd parcio a theithio i deithwyr allu trosglwyddo o'r M4 i drên / bws i mewn i Gasnewydd a Chaerdydd.	
16. Gwella amlder trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn annog pobl allan o'u ceir.	
15. Teithio llai	
14. Lleihau'r angen i deithio!!!	
19. Mae gwaith cynnal a chadw ffordd yn achosi llai o darfu ar yr M4.	
21. Creu prosiect peirianneg sifil mawr a fydd yn hwyluso nifer fawr o swyddi newydd.	
13. Cefnogi twf economaidd De Cymru	
14. Hyrwyddo Cymru well.	
20. Cynyddu bioamrywiaeth	*er mwyn gwella'r profiad teithio (Cyrchnod 12 presennol)*

2.4 Trafodaeth lawn am y Cyrchnodau

Roedd ychydig o drafod cyffredinol ychwanegol am gyrchnodau a gofnodwyd ar siartiau troi, fel a nodir isod:

Cyrchnod 1: os yw'r traffig yn llifo'n gyflymach, mae mwy o sŵn, felly gallai 'lleihau sŵn' gael ei weld fel rhywbeth croes.

Cyrchnod 3: dyma oedd y cyrchnod pwysicaf i un bwrdd

- Mae angen i gyrchnodau fod yn 'SMART' neu sut byddwn ni'n gwybod a ydynt wedi'u cyflawni? [*DS cafodd y cyrchnodau eu trosi i 'plain English' gan dîm Mesurau Gwella Coridor yr M4, ac efallai eu bod wedi colli rhywfaint o'u 'helfennau SMART' wrth gyfieithu]*
- Ni ddylai unrhyw fesur effeithio'n niweidiol ar yr ardal o gwmpas.
- Dylai atebion fod ar gyfer y coridor cyfan.

3 Nodau Cyffredinol

3.1 Sylwadau ar nodau cyffredinol cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr adolygu dadansoddiad cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r nodau cyffredinol ar gyfer rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4, dynodi a oeddent yn cytuno â hwy, ac ychwanegu sylwadau neu ddiwygiadau. Rhoddir trawsgrifiad isod o'r taflenni gwaith a ddefnyddiwyd ganddynt.

2010-2020 Nod 1. Ei gwneud hi'n haws i bobl gyrraedd gwasanaethau fel siopau, ysbytai, gwasanaeth hamdden a mannau gweithio, ar y ffordd, trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio....	
✓	Mae ond yn ymwneud â defnyddwyr lleol
	Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol a gwella mynediad cyffredinol
	Ond mae risg, yn sgil gwella cysylltiadau â chanolfannau economaidd/cymdeithasol mawr, y bydd cymunedau lleol a busnesau'n dioddef wrth i bobl ddefnyddio gwasanaethau mewn 'canolfannau'. Symud o deithio mewn ceir i ddatblygiadau y tu allan i'r dref, i fentrau trafnidiaeth sy'n ganolog mewn trefi, a hybu manwerthu [*roedd y daflen waith yn gwneud cysylltiad â sylw yn Nod 2 'nid y seilwaith trafnidiaeth yw'r ateb i bob dim]*
	Cytuno – i'w wneud yn hawdd ac yn fforddiadwy
×	
?	Awgrymu y dylai'r nod ddarllen – "ei gwneud hi'n haws ac yn fwy diogel i …" [Beth am fuddsoddi mewn band eang er mwyn lleihau'r angen i deithio, neu fuddsoddi mewn polisi defnyddio tir mwy caeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n agosach at bobl]

2010-2020 Nod 2. Cefnogi ac annog ffyniant yn y rhanbarth a ledled Cymru drwy gyflawni rhwydwaith trafnidiaeth fwy effeithlon ar y porth economaidd pwysig hwn i Dde Cymru	
o	Taro cydbwysedd rhwng y lleol a'r strategol?
	A marchnadoedd rhyngwladol
	Mae'n hepgor cyfeirio at gynaliadwy. Annog ffyniant tymor hir
	Nid y seilwaith trafnidiaeth yw'r ateb i bob dim. Sgiliau a mynediad i sgiliau yn y categori hwn hefyd? Denu buddsoddiad mewnol, yn enwedig y diwydiant twf Cynnal peilot o seilwaith ceir trydan
	Mae'n ymwneud â defnydd lleol o'r M4 ar hyn o bryd; Mae'n hepgor cyfeirio at gynaliadwyedd; Dylai'r M4 fod yn llwybr strategol ac nid yn rhwydwaith lleol "Mae trafnidiaeth yn fodd o gyflawni diben, ac nid yn ddiben ynddo'i hun". Rhaid mai ei nod felly yw hwyluso ffyniant economaidd Cymru"
×	
?	Economi yn ganolog (ac yn flaenoriaeth gyntaf)

	Angen sicrhau i'r dyfodol e.e. Os yn cefnogi ac yn annog ffyniant, a fydd y rhwydwaith trafnidiaeth yn gallu ymdopi? Cefnogi Casnewydd fel lle sy'n ffynnu

2010-2020 Nod 3. atal a lleihau effeithiau negyddol rhaglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 ar bobl a'r amgylchedd, a lle bo'n ymarferol, darparu gwelliannau i gydbwyso yn eu herbyn.	
✓	Helpu lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
	Nid yw hyn yn cwmpasu meddwl radical, ac mae angen mynd i'r afael â'r broblem pan fydd wedi'i symud i rywle arall!
	Ceisio lleihau allyriadau carbon
	Nid er niwed i gymunedau eraill sy'n defnyddio arloesedd i wrthweithio unrhyw effeithiau negyddol. Mesur effaith amgylcheddol y cynllun cyfan h.y. y gost carbon o'r cychwyn, adeiladu a chylch bywyd. Mabwysiadu'r farn systemau Gwneud dadansoddiad llawn o werth (Gwerth presennol net/cost bywyd cyfan)
	Cytuno – ond dileu lle bo'n ymarferol
×	
?	Gwneud yn gadarnhaol a defnyddio iaith gadarnhaol e.e. Gwella ansawdd yr aer – yn erbyn targedau mesuradwy Gwella ymylon ffordd, bioamrywiaeth, deniadol yn weledol Gweithredu'r cynllun gweithredu bioamrywiaeth presennol ar gyfer ystâd priffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru Rheoli a chynnal a chadw Bydd y cynllun yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyrchnodau cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a mynd i'r afael â chyfraniad trafnidiaeth at yr hinsawdd yn newid

3.2 Sylwadau eraill ar y taflenni gwaith

Roedd nodiadau taflenni gwaith eraill a gofnodwyd gan gyfranogwyr yn cynnwys:

- Gwell trefn i'r nodau strategol → Amgylcheddol, Cymdeithasol, Economaidd – nodau da i gyd – newid y drefn, ac ystyried gollwng teitlau am eu bod yn bileri Wel/TAG a gallent fod yn emosiynol!
- Nodau Strategol – sut byddwn ni'n gwybod pan fyddwn ni wedi'u cyflawni?!?
- Nodau tymor hwy:-
    - Rhoi 3 lôn drwy'r twneli. Mae technoleg wedi newid, a gellir gwneud hyn nawr.
    - Gwahanu materion lleol a materion pellter hir, a mynd i'r afael â phroblemau dilynol o ganlyniad i hyn.
- Tymor byr
    - Gwella diogelwch i <u>bawb</u>
- Awgrymu nod newydd – DIOGELWCH

3.3 Trafodaeth lawn am nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Roedd ychydig o drafodaeth gyffredinol ychwanegol am nodau'r llywodraeth, a chofnodwyd hyn ar siartiau troi, fel a nodir isod:

- Amgylchedd Drafod: gallai fod yn ddatganiad mwy cadarnhaol, mwy swmpus.
- Economaidd: dylai fod ynglŷn â ffyniant hir dymor.

3.4 Nodau cyffredinol newydd hyd at 2020

Gofynnwyd i gyfranogwyr ystyried a ddylai fod unrhyw nodau cyffredinol ychwanegol hyd at 2020, a'u hysgrifennu ar stribedi o bapur siartiau troi. Gosodwyd y stribedi ar flaen yr ystafell, ac mewn rhai achosion gofynnodd yr hwylusydd am esboniad. Mae'r nodiadau esbonio yn y golofn ar y dde. Rhoddwyd y cyrchnodau mewn categorïau bras gyda chymorth y cyfranogwyr, ac fe'u dangoswyd gyda'i gilydd; dyna pam y mae'r rhifau allan o drefn.

NOD 2010 - 2020	***Nodiadau'r siartiau troi ac esboniadau ar stribedi o'r drafodaeth lawn***
7. Rhoi 3 lôn yn y twneli – mae technoleg peirianneg wedi newid.	
6. I wneud siwrneiau'n fwy diogel i bob un (dull)	
5. Gwella diogelwch trwy greu amgylchedd ffordd sy'n lleihau gwrthdrawiadau traffig ffordd yn sylweddol erbyn 2020.	*Mae technoleg a pheirianneg wedi newid ers yr astudiaeth ddichonoldeb wreiddiol o'r M4 – mae'n werth edrych arno eto.*
4. Unigol – effaith ar fywydau pobl; effaith emosiynol; anafiadau (yn ychwanegol at economaidd / categori COBA o 'Ddamwain'); straen, effaith ar ffordd o fyw, colli symudedd.	*Ni chyfrifir am effaith damwain ar unigolion, na diogelwch. Dim ond agweddau economaidd damweiniau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.* *Dylai'r nod cymdeithasol geisio gwella lles pobl De Cymru.*
10. Gwahanu gofynion yr economi leol oddi wrth yr economi genedlaethol (rhyngwladol).	
9. Gwahanu teithio lleol a theithio pellter hir.	
8. Sicrhau cysylltu ag ailfreinio rhwydwaith rheilffyrdd Cymru erbyn 2018.	

3.5 Nodau cyffredinol newydd o 2020 ymlaen

Yn olaf, gofynnwyd i gyfranogwyr am awgrymiadau ar gyfer nodau cyffredinol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2020, eto gan weithio ar stribedi o bapur siart troi. Mae'r nodau a awgrymwyd gan y cyfranogwyr wedi'u rhestru isod:

NOD o 2020 ymlaen	***Nodiadau'r siartiau troi ac esboniadau ar stribedi o'r drafodaeth lawn***
14. Gwneud dim! Bydd pris uchaf olew a thagfeydd yn dileu'r broblem.	*Gadewch i bethau fod a bydd pobl yn ad-drefnu'u bywydau.*
13. Ystyried ffyrdd amgen o ariannu gwelliannau i drafnidiaeth (e.e. prisio ffyrdd, trethi busnes)	*e.e. fel mae Crossrail wedi gwneud*
12. Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol	*Dylai mesurau geisio lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol, e.e. mynediad mwy cyfartal i wasanaethau.* *'Meddwl yn lleol' e.e. fel yn y Mudiad Pontio.* *Edrych ar y gallu i godi trethi lleol (Cymru).*
11. Gwahardd ceir	*Oni bai eu bod yn rhedeg ar danwydd adnewyddadwy. Symud i system drafnidiaeth gynaliadwy nad yw'n dibynnu ar olew a llygredd.*

4 Gwerthusiadau

Ar ddiwedd y gweithdy, gofynnwyd i'r cyfranogwyr lenwi ffurflen werthuso. Rhoddir y canlyniadau isod.

Pa mor ddefnyddiol oedd y deunydd gwybodaeth cyn y gweithdy a anfonwyd atoch o flaen llaw?



Text for above

Number of participants –
Nifer y cyfranogwyr

1=not at all helpful -
1=ddim yn ddefnyddiol o gwbl

2=quite helpful -
2=eithaf defnyddiol

3=very helpful –
3=defnyddiol iawn

Sylwadau

- Ffocysu ar y mater
- Wedi gweld y rhan fwyaf ohono o'r blaen. Anodd deall beth fydden ni'n ei wneud ar y diwrnod. Byddai wedi bod o gymorth i gael cyrchnodau ac ati ar y dechrau yn hytrach na'r diwedd
- Yn sefyll i mewn dros gyfaill, felly heb gael cyfle i'w ddarllen o flaen llaw
- Casglwyd mwy o wybodaeth ar gyfer y llwybr M4 a roddwyd o'r neilltu
- Byddai rhag-restr o'r mynychwyr wedi bod yn ddefnyddiol
- A byddai deunydd yn y gweithdy wedi cyd-fynd â hyn yn dda

- Dim ond am fy mod yn fwy ymwybodol o'r cefndir o flaen llaw

At ei gilydd, beth oedd eich barn am y gweithdy hwn?



Text for above

Number of participants –
Nifer y cyfranogwyr

Rating –
Barn

1=very poor
1=gwael iawn

10=very good -
10=da iawn

Sylwadau

- Er ei fod yn eithaf, hir, roedd yn weithdy defnyddiol iawn
- Aeth Catrin ati i gydlynu'r gweithdy yn dda iawn
- Nid oedd y cyfranogwyr yn adlewyrchu cyfansoddiad amlddiwylliannol dinas Casnewydd – roedd y cyfranogwyr i gyd yn wyn
- Hwyluswyd y gweithdy'n dda iawn, ond roedd y cyfraniadau gan Allan Pitt yn wael ac yn ddibwynt
- Rheolwyd negyddoldeb yn negyddol gan yr hwylusydd. Rhy hir. Gormod o gyffredinoli ysgubol, derbyn * gweler C4
- Y cyflwyniad a'r hwyluso'n wael – materion wedi'u diffinio'n wael e.e. problem = methu, problem = effeithiau
- Ysgogodd llawer o drafod
- Llawer o farnau amrywiol, ac nid oeddwn yn cytuno â llawer ohonynt

- Ymgynghori 'esgus' canfyddedig
- Mae'r pwnc yn rhy gymhleth i roi sylw priodol iddo ar y lefel hon. Y cyfan allwn ni wneud yw datgan yr hyn sy'n amlwg!
- Roedd yn dda clywed barnau amrywiol gan bobl â phrofiadau amrywiol o fyw a gweithio yn yr ardal – a cheisio cyfiawnhau fy marnau i iddynt. Fodd bynnag, rywsut, doeddwn i ddim yn teimlo ein bod y canolbwyntio ar yr ehangach – Casnewydd a'r cynllun gofodol – dim ond ffyrdd

A fodlonwyd nodau'r dydd?

Sef, eich bod:

- Wedi clywed mwy am raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4
- Wedi cyfrannu eich barnau am broblemau, cyrchnodau a nodau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar Goridor yr M4, Magwyr i Gas-bach, rhwng nawr a 2020, gan fwydo i mewn i raglen Mesurau Gwella Coridor yr M4 sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru



Text for above

Number of participants –
Nifer y cyfranogwyr

1=yes -
1=do

2=in part -
2=yn rhannol

3=no -
3=naddo

Os naddo, beth oedd yn eisiau?

- Roedd y sesiwn yn rhy hir – y cyfarwyddiadau'n gymhleth
- Gweithdy'n cyfyngu, felly dim atebion. Roedd yn waharddol
- Dim data meintiol
- Dim manylion am y rhaglen
- Neilltuwyd gormod o amser i roi sylw i ddiffygion amlwg. Byddai archwilio achosion y problemau wedi bod yn fwy cynhyrchiol IMHO

- Nid oeddwn i'n teimlo bod cyfle i drafod y nodau ac amcanion (TPOs), rwy'n cymryd mai'r rheswm am hynny yw bod y cyfan wedi'i wneud lawer gwaith o'r blaen - ond roeddwn i'n teimlo fod y gwaith hwn i gyd yn dal i arwain at greu cynhwysedd ffordd yn hytrach na buddsoddi i newid ymddygiad teithio, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a hwyluso datblygu cynaliadwy

A oedd fformat y gweithdy'n ei gwneud hi'n hawdd i chi fynegi eich barn am y materion?



Text for above

Number of participants –
Nifer y cyfranogwyr

Rating –
Barn

1=not at all -
1=ddim o gwbl

10=very easy -
10=hawdd iawn

Sylwadau

- Roedd y fformat yn gweithio'n dda, ond roedd rhai o'r nodau/amcanion/cyrchnodau yn weddol amlwg
- Trafodaethau bwrdd da
- Ond roedd yn amhosibl clywed y mynychwyr eraill
- Y grŵp yn rhy fawr ar y cyfan
- Gweler y sylw blaenorol. Cafodd rhywfaint o adborth ei ddiystyru'n negyddol gan yr hwylusydd nifer o weithiau. Hefyd, awyrgylch o bwnio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Brygowthan.
- Ymdrechodd yr hwyluswyr yn galed i wneud y gorau o'r maes pwnc
- Roeddwn yn gallu mynegi fy marn, ond ni wnes eu hysgrifennu i lawr oni bai ein bod wedi gallu dod i gytundeb cyfunol ar ein bwrdd. Efallai bod pobl eraill

yn ymatal llai – ond a gaethon ni gynrychiolaeth lawn mewn gwirionedd gan y lobi o blaid y ffordd? (a yw hyn yn gwrth-ddweud fy sylwadau eraill?)

Pa neges hoffech chi ei rhoi i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi fwrw ymlaen â Mesurau Gwella Coridor yr M4?

- Mae angen integreiddio deilliannau er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy go iawn, mae angen mynd ar drywydd lles ac uchelgeisiau amgylcheddol yn oportiwnistaidd
- Cyflawnwch
- Ystyriwch lorïau mewn unrhyw gynllunio ar gyfer economi De Cymru
- Sicrhau bod atebion yn hyfyw yn economaidd, a bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i atebion i gynorthwyo trafnidiaeth gyhoeddus (y ffordd a'r rheilffordd) ac i wella diogelwch
- Nid yr M4 yn unig sydd dan sylw, mae'n golygu edrych ar sut y mae pob modd yn cael eu defnyddio er mwyn lleihau'r effaith. Mae'r polisi cynllunio yn rhan allweddol hefyd
- Nifer o negeseuon
- Mae'n rhaid i ymgysylltu â rhanddeiliaid barhau, ond rhaid ei ehangu i gynnwys y cyhoedd, nid dim ond y rheiny ohonom sy'n gysylltiedig yn broffesiynol â chludiant.
- Yn ail, cryfhau'r ymgysylltiad â SEWTA
- Edrychwch ar y mater ehangach ac integreiddio syniadau
- Gwneud dim! Bydd pobl yn addasu i'r tagfeydd traffig presennol a phrinderau olew yn y dyfodol
- Mae angen trefnu bod mwy o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd am yr hyn sy'n digwydd gyda choridor yr M4
- Mae strwythur ffyrdd ymadael y draffordd, law yn llaw â chyfyngiad cyflymder is, wedi arwain at gerbydau nwyddau trwm yn defnyddio'r lôn ganol am bellteroedd sylweddol (ac nid y lôn chwith). Mae symud rhwng lonydd yn fwy anodd/peryglus. Weithiau mae goleuadau traffig ar gylchfannau yn achosi mwy o broblemau nag y maent yn eu datrys (e.e. Cyffordd 28)
- Meddyliwch am y darlun mwy, gan y gallai "coridor yr M4" fod yn ardal rhy gul i'w hystyried. Dewisiadau rhanbarthol, a allai "symud" y broblem i rywle arall i gychwyn, ac yna delio â'r materion hyn. Edrych ar lwybrau cyfochrog eraill, ystyried ail-lwybro traffig yn weithredol. B) Sicrhau meddwl yn integredig am yr holl foddau. Rwy'n dal i ddarllen adroddiadau sy'n gwrthdaro, yn enwedig priffyrdd a'r rheilffordd. Rwy'n siwr y gellir gwneud hyn.
- Rhaid i unrhyw gynlluniau fod yn gynaliadwy, a rhaid sicrhau eu dyfodol, fel nad ydynt yn dyddio cyn cwblhau
- Ni fydd y broblem tagfeydd ar yr M4 yn mynd i ffwrdd nes eich bod:-

- Yn delio â dileu'r broblem 3 i 2 i 3 lôn wrth dwneli Brynglas NEU
- Yn cyflwyno trafforddd amgen yn ardal Casnewydd!!!
- Tynnu meysydd polisi eraill y Cynulliad i mewn, er mwyn sicrhau ymagwedd gyfannol at gyrchnodau ac atebion – cynllunio, cymdeithasol, iechyd ac ati
- Rwy'n gweithio mewn busnes sydd gerllaw Cyffordd 28, ac mae llawer o sïon ar led fod Cyffordd 27 i'w chau. Mae hyn yn peri pryder. Ar adegau prysur, mae maint y traffig sy'n teithio i lawr y dyffryn drwy Risga ac ati yn golygu bod Cyffordd 27 a Chyffordd 28 yn orlawn ac mae tagfeydd trwm yno. Byddai cau Cyffordd 27 yn golygu y byddai Cyffordd 28/Forge Lane ond yn cael eu trosglwyddo o Gyffordd 27. Mae angen i raglen y ddinas gyfan ystyried defnyddwyr busnes lleol, nid yn unig teithwyr o ardaloedd pellach i ffwrdd.
  2) Plîs, plîs gwnewch rywbeth yn fuan ynglŷn â'r goleuadau traffig ar gylchfan Cyffordd 28. Mae'r dilyniant newydd yn achosi gymaint o dagfeydd i draffig sy'n gadael Casnewydd - bydd damwain ddifrifol yn digwydd cyn bo hir.
- Parhewch i wrando
- Mwy o bwyslais ar fesurau "meddal" Smart
- Atebion cynaliadwy - edrych ar yr holl faterion fel mesurau 'meddal' - cynlluniau teithio personol a chynlluniau teithio ystôl, ymwybyddiaeth o deithio - rheilffordd, trên. Atebion gwyrdd a bioamrywiaeth - gwneud coridorau'r ffordd/rheilffordd yn fwy dymunol i'r gyrrwr - cloddiau blodau gwyllt, coed collddail brodorol, bywyd gwyllt/ pyllau SDCau. Osgoi effaith ar yr amgylchedd naturiol (llygredd i SoDdGA ac ACA Afon Wysg)
- Meddyliwch am y darlun mawr. Mae gennym gyfle i wella'r problemau trafnidiaeth a logistaidd i'r mwyafrif o bobl sy'n byw yng Nghymru!
- Siaradwch â chydweithwyr mewn adrannau eraill o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Byddwch yn ymwybodol o dargedau ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru (ansawdd aer, cynaliadwyedd, ac ati), a'r modd y gall y cynllun hwn gyfrannu at Gynllun Gofodol Cymru. Targedau SMART. Croesawu ymagwedd newydd.
- Edrychwch ar y darlun mawr. Yr effaith ar Gymru, a De Ddwyrain Cymru yn benodol, gan gynnwys y dyffryn
- Ymgynghori = da. Cynhwyswch bob un o'ch adrannau, yn enwedig y timau trafnidiaeth a chynaliadwyedd integredig. Nid oedd hwn yn gymysgedd amrywiol iawn o bobl. A oedd yn gynrychioliadol o ddemograffeg De Ddwyrain Cymru?
- Angen ei ddiffinio'n well e.e. fe wnaeth y trafodaethau amrywio rhwng yr M4 yn benodol a materion trafnidiaeth integredig ehangach. Gallai pob un o'r cyrchnodau fod wedi'u cysylltu yn 1. Geiriwyd y broblem yn wael, a gellid gwneud rhai yn waeth. Dim digon o gydnabyddiaeth o'r rhwydwaith ffyrdd bwydo ac anallu asiantaethau i gyfathrebu a chynllunio.
- Meddyliwch mwy am ddewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus

- A wnewch chi gydnabod y cyswllt amlwg rhwng seilwaith ac economi Cymru. Mae angen dod o hyd i ateb i'r problemau sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Peidiwch â gadael etifeddiaeth o ddiffyg gweithredu. Mae'r M4 yn rhan hollbwysig o'r seilwaith.
- Rheoli disgwyliadau'n well. Mae tagfeydd ar adegau prysur yn dderbyniol, a dylai ymwneud ag ymwybyddiaeth nid buddsoddi i ddatrys y sefyllfa
- Cofiwch mai bwriad gwreiddiol y draffordd oedd fel llwybr amgen i draffig trwodd sy'n osgoi tagfeydd lleol. Efallai ein bod wedi colli golwg ar yr egwyddor honno.
- Dylai buddsoddiad mewn trafnidiaeth gael ei benderfynu cyn dyrannu cyllidebau i ddulliau teithio. Mae dadansoddiad o gost = budd yn dangos cynlluniau cerdded a beicio?? Darparu'r gwerth uchaf am arian, ymddengys mai'r unig reswm y mae buddion mawr i gynlluniau ffordd yw am eu bod yn costio gymaint a'u bod yn cael eu prisio dros 60 mlynedd, lle bo pob eiliad yn cael ei phrisio'n gyfartal ac yn unigol.